Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Adroddiad monitro Openreach

Sicrhau Openreach annibynnol sydd wedi ymrwymo i gystadleuaeth deg

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mehefin 2023

# 1. Trosolwg

1.1 Rydyn ni eisiau i bobl ledled y DU gael mynediad at gysylltiadau rhyngrwyd dibynadwy, cadarn ac o ansawdd uchel, sy'n cefnogi'r ffordd rydyn ni'n byw, yn gweithio, yn siopa ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Mae gweithredoedd, ymddygiad a phenderfyniadau Openreach yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyflawni'r canlyniad hwnnw, oherwydd ei safle pwerus fel cyflenwr seilwaith rhwydwaith.

1.2 Drwy waith Uned Fonitro Openreach ('OMU'), rydym yn sicrhau bod Openreach yn bodloni ein disgwyliadau o ran sut mae'n delio â'i gwsmeriaid a'i gystadleuwyr. Mae'r Uned yn monitro bod Openreach yn parhau i weithredu gyda mwy o annibyniaeth strategol ar BT Group, fel sy'n ofynnol gan yr Ymrwymiadau,[1] fel ei fod yn gallu ac yn gweithredu er budd ei holl gwsmeriaid ac nad yw, er enghraifft, yn ffafrio brandiau BT Group. Mae'r Uned hefyd yn gwneud yn siŵr bod Openreach yn bodloni'r disgwyliadau a'r gofynion rheoleiddio roeddem wedi'u gosod arno yn yr Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol (y 'WFTMR') i gefnogi cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits.[2]

1.3 Yn ein hadroddiad diwethaf ddiwedd 2021, fe wnaethom gyhoeddi ein bwriad i ymestyn cylch gwaith yr Uned i gynnwys canlyniadau'r WFTMR.[3] Rydym mewn cyfnod allweddol ar gyfer buddsoddi mewn ffeibr, gyda rhwydweithiau amgen ('altnets') ac Openreach yn buddsoddi'n sylweddol ar sail y rheolau a sefydlwyd gennym yn y WFTMR. Mae'n dal yn bwysicach nag erioed sicrhau bod yr Uned yn craffu ar y materion hyn i wneud yn siŵr bod Openreach yn bodloni'r llythyr ac ysbryd ei rwymedigaethau.

1.4 Yn ôl ein profiad hyd yma, mae'r Ymrwymiadau wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan, ac rydym yn parhau i weld tystiolaeth eu bod wedi hen ennill eu plwyf ac wedi'u gwreiddio'n dda ar draws BT ac Openreach. Mae gan y ddau sefydliad strwythurau i gefnogi'r Ymrwymiadau rydym yn eu gweld yn gweithio'n dda, a phrosesau ar waith sy'n helpu i gefnogi cydymffurfiaeth ac sy'n mynd i'r afael â'r achosion cymharol brin o ddiffyg cydymffurfio.

1.5 Lle mae achosion o dorri amodau wedi cael eu nodi drwy ein gwaith monitro, neu lle maent wedi cael eu dwyn i'n sylw, rydym wedi gweithio'n agos gyda BT ac Openreach yn ogystal â'r rhanddeiliaid perthnasol ar y materion hyn i ddal BT ac Openreach i gyfrif. Mae'r achosion hyn o dorri amodau i gyd wedi bod yn gymharol fach eu natur ac maent yn digwydd ar gyfradd sy'n nodweddiadol o'r blynyddoedd diwethaf (llai na 10 y flwyddyn).

---

[1] Yn 2017, rhoddodd BT Ymrwymiadau gwirfoddol i Ofcom i fynd i'r afael â phryderon Ofcom ynghylch cystadleuaeth ar y pryd. Dyma'r fersiwn ddiweddaraf: Ymrwymiadau BT Plc ac Openreach Limited i Ofcom – Rhifyn 5 – ar 28 Mai 2021.

[2] Gweler Ofcom, 2021 Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr: adolygiad o'r seilwaith ffisegol ac o farchnadoedd cysylltedd busnes

[3] Adroddiad monitro blynyddol Ofcom ar Openreach – cynnal Openreach annibynnol.8 Rhagfyr 2021

1.6 Er bod y dystiolaeth rydym wedi'i gweld yn awgrymu bod BT ac Openreach wedi ymrwymo'n gadarn i barhau i gyflawni'r Ymrwymiadau, yr her i'r naill barti a'r llall yw sicrhau bod yr Ymrwymiadau'n parhau i fod wedi'u gwreiddio'n weithredol, yn ddiwylliannol ac yn gynaliadwy yn y ddau sefydliad, chwe blynedd ar ôl eu cyflwyno. Cafwyd enghreifftiau lle mae newidiadau mewn staff a chyflwyno systemau newydd wedi arwain at achosion o dorri rheolau o bryd i'w gilydd, ac er bod y rhain wedi cael sylw cyflym a phriodol, mae'n bwysig bod BT ac Openreach yn cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau nad yw hunanfoddhad yn codi.

1.7 Mae llwyddiant yr Ymrwymiadau hyd yma wedi bod yn rhannol o leiaf o ganlyniad i benderfyniadau a dewisiadau arweinwyr allweddol BT ac Openreach. Pan fydd newid yn y swyddi uwch hyn, rydym yn disgwyl i BT ac Openreach sicrhau bod olynwyr yn adeiladu ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud.

1.8 Hyd yma, rydym wedi gweld yr Ymrwymiadau ysgrifenedig yn cael eu cryfhau gan yr ysbryd cadarnhaol a weithredwyd. Mae rhwymedigaethau ac ymrwymiadau ehangach BT sy'n ymwneud â chystadleuaeth – sy'n ymestyn i faterion sy'n deillio o'r WFTMR – hefyd yn dibynnu ar yr ysbryd hwn, ac ar ymddygiad sy'n cydymffurfio yn cael ei sbarduno gan esiampl o'r safleoedd uchaf un. Roedd sylwadau Prif Weithredwr BT, Philip Jansen, ym mis Chwefror eleni – gan gynnwys yr adroddiad ei fod yn dweud y bydd gwaith hybu ffeibr Openreach yn 'darfod mewn dagrau' i gystadleuwyr – yn achosi pryder sylweddol i Ofcom a'r diwydiant, fel y nodir yn ymateb Ofcom i Mr Jansen.[4] Byddem yn hynod bryderus o weld sylwadau tebyg yn y dyfodol a byddwn yn cadw golwg fanwl ar hyn.

1.9 Dros y 18 mis diwethaf, mae'r Uned wedi canolbwyntio'n bennaf ar ystyried a oedd unrhyw gamau gweithredu neu benderfyniadau gan Openreach yn peryglu ystumio cystadleuaeth a niweidio'r farchnad. Yn ogystal â'n gwaith monitro ein hunain, rydym hefyd wedi ystyried amrywiaeth o bryderon a godwyd gan y diwydiant, sydd weithiau'n cael eu mynegi fel cwynion ffurfiol. Rydym yn rhoi rhagor o fanylion am y materion hyn a'n gwaith mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

1.10 Er nad ydym wedi dod o hyd i ddigon o dystiolaeth i agor unrhyw ymchwiliadau hyd yma mewn perthynas â'r cwynion hyn, byddwn yn parhau i gymryd y pryderon hyn o ddifrif ac ni fyddwn yn oedi cyn blaenoriaethu camau gorfodi yn ôl yr angen. Er mwyn sicrhau bod y trefniadau rheoleiddio amrywiol hyn yn parhau i weithredu'n effeithiol, byddwn yn cryfhau gweithrediad Uned Fonitro Openreach dros y misoedd nesaf, fel ei bod yn parhau i fod yn ddull diogelu gwrthrychol, gwyliadwrus a thryloyw.

---

[4]Gweler: llythyr gan Ofcom at Philip Jansen